*This document is available in English* **Eitem Agenda 8**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **10 Ebrill 2025** |
| Swyddog Arweiniol | **Justin Evans, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Lee Bourne, Pennaeth Hyfforddiant a Datbly** |
| Pwnc | **Diweddariad ar Brosiect y Ganolfan Hyfforddi** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Rhoi diweddariad strategol i'r Aelodau ar gynnydd prosiect Canolfan Hyfforddi Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth), gan ymgorffori datblygiadau diweddar o weithdai achos busnes mis Ebrill, sefyllfa risg wedi'i diweddaru, amserlen ddiwygiedig, a’r meysydd sydd dan sylw ar hyn o bryd.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae'r prosiect yn parhau i fod ar y trywydd iawn gyda chynnydd sylweddol wedi'i wneud yn y cyfnod adrodd hwn, gan gynnwys datblygu'r llwybr critigol, mireinio’r cwmpas, a chanfod llwybrau ariannu hyfyw. Mae ymgysylltiad y staff yn parhau i fod yn gryf, ac mae'r achos busnes amlinellol yn mynd rhagddo gyda chefnogaeth gan ymgynghorwyr allanol. Mae'r prosiect cyffredinol yn parhau i fod yn ambr o ran ei radd, gan adlewyrchu risgiau parhaus sy'n ymwneud â chyllid, capasiti staffio, a phwysau amserlen. Mae dyddiad targed diwygiedig RIBA Gateway 4, sef mis Ebrill 2027, wedi'i bennu. Mae tîm y prosiect yn parhau i gymryd camau rhagweithiol i liniaru risgiau allweddol a sicrhau y gellir cyflawni’r prosiect o fewn y ffiniau diffiniedig.

**ARGYMHELLIAD**

3 Bod yr Aelodau’n nodi:

i) Y llwybr critigol a'r targed diwygiedig ar gyfer cwblhau RIBA Gateway 4 (Ebrill 2027).
ii) Y cynnydd wrth ddiffinio cwmpas, manyleb, a model cyflawni trwy weithdai achos busnes.
iii) Y risgiau allweddol a nodwyd ar gofrestr risg y prosiect a'r mesurau sydd ar waith i'w lliniaru.
iv) Aliniad strategol y Ganolfan Hyfforddi newydd â nodau llesiant a rheoli risg cymunedol ehangach y Gwasanaeth.

## CEFNDIR

4 Sefydlwyd prosiect y Ganolfan Hyfforddi i ymateb i risgiau gweithredol ac ariannol sy'n gysylltiedig â'r trefniadau hyfforddi presennol ac i ddarparu cyfleuster addas i'r diben sy'n diwallu anghenion hirdymor y Gwasanaeth. Dechreuodd y prosiect yn 2022, a dros y 12 mis diwethaf mae wedi symud o gysyniad lefel uchel i ddatblygiad strwythuredig, gyda chefnogaeth llywodraethu ffurfiol ac arbenigedd allanol. Roedd gweithdai Ebrill 2025 gydag ymgynghorwyr MIAA a rhanddeiliaid yn canolbwyntio ar ddiffinio canlyniadau'r prosiect, alinio'r buddsoddiad â nodau strategol, ac adeiladu map ffordd tuag at achos busnes amlinellol hyfyw erbyn Ch2 2025/26.

## GWYBODAETH

5 Cynnydd Diweddar:

- Cyfarfu gweithgorau ar gyfer manylebau cynnyrch o fis Chwefror ymlaen. Mae'r allbynnau'n cael eu mireinio gan Dîm y Prosiect i greu manylebau cynnyrch hyfyw lleiaf (MVP), wedi'u halinio â blaenoriaethau strategol.
- Datblygwyd adolygiad cynhwysfawr o'r rhaglen a llwybr critigol ym mis Ebrill. Eglurodd hyn amserlenni, dibyniaethau, a gofynion ymgynghori allanol, gan rag-weld y bydd yr adeiladu'n dechrau yng nghanol 2027.
- Cadarnhaodd gweithdai dan arweiniad MIAA aliniad rhwng y prosiect ac uchelgeisiau ehangach y Gwasanaeth. Mae'r meysydd ffocws allweddol yn cynnwys diogelwch, diheintio, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, cynaliadwyedd hinsawdd, cydweithredu, a gwerth economaidd.
- Mae'r achos busnes amlinellol yn cael ei ddatblygu, a disgwylir achos strategol drafft erbyn diwedd Ebrill 2025.
- Mae canolfannau cost ar gyfer tir ac adeiladu wedi'u sefydlu; mae dangosfwrdd ariannol yn cael ei ddatblygu.
- Mae'r gweithgarwch caffael yn parhau, gydag IKG Consultants ac Enfys Ecology wedi'u penodi a gwaith pellach ar y gweill i drosglwyddo'r drwydded madfallod a sicrhau cefnogaeth ddylunio.

6 Yr Hoff Ddewisiadau Dylunio a Chyflenwi sy'n Dod i'r Amlwg:

- Cyfleuster canolog, wedi'i adeiladu'n bwrpasol yw'r opsiwn a ffefrir o hyd.
- Dylai'r cyfleuster gefnogi swyddogaethau gweithredol, corfforaethol ac aml-asiantaeth.
- Ystyrir mai cyllid grant (gan gynnwys Llywodraeth Cymru) yw'r llwybr cyfalaf mwyaf hyfyw, ac mae'r gwaith o archwilio modelau cydweithredol yn parhau.
- Mae gweithredu ar ffurf un cam yn cael ei ffafrio, yn amodol ar ddichonoldeb a chadarnhad cyllid.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r cyfleuster newydd yn cyfrannu'n uniongyrchol at ddiogelwch y gweithlu, lles cymunedol, a chynaliadwyedd sefydliadol. Mae'r uchelgeisiau dylunio yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan ganolbwyntio ar wydnwch, cynhwysiant a rhagoriaeth hyfforddi. |
| Cyllideb | Mae'r prosiect yn parhau heb ei ariannu y tu hwnt i'r cam datblygu cychwynnol. Mae'r strategaeth gyfalaf yn dibynnu ar ymgysylltiad llwyddiannus â Llywodraeth Cymru a chyllidwyr posibl eraill. Mae mecanweithiau rheoli ariannol yn cael eu cryfhau gyda chanolfannau costau newydd gyda goruchwyliaeth gan arweinwyr hyfforddi ac ariannol y Gwasanaeth. |
| Cyfreithiol | Mae'r prosesau caffael yn cydymffurfio â rheoliadau'r sector cyhoeddus. Mae cyfyngiadau cynllunio ac ecolegol (e.e. rhywogaethau gwarchodedig) yn cael eu llywio gyda chyngor arbenigol. Bydd amserlenni ymgynghori cyhoeddus yn cadw at ofynion GTAGC a gofynion statudol. |
| Staffio | Mae symudiadau staff yn parhau i effeithio ar barhad y prosiect. Mae rolau diffiniedig a strwythurau llywodraethu diwygiedig yn cael eu cyflwyno i liniaru hyn. Cydnabuwyd yr angen am gapasiti penodol i gyflwyno rhaglenni trwy weithdai diweddar. |
| Cydraddoldeb/ Hawliau Dynol/ Y Gymraeg | Mae'r cyfleuster yn cael ei gynllunio i fod yn gynhwysol, hygyrch a dwyieithog, gyda phrosesau ymgynghori yn adlewyrchu'r gwerthoedd hyn. Mae'r gwaith ar y manylebau yn ymgorffori anghenion amrywiol y gweithlu a'r gymuned. |
| Risgiau | Mae'r risgiau coch canlynol o dan reolaeth weithredol:<br>• **TCR02:** Dibyniaeth y prosiect ar gapasiti Rheolwr Prosiect – wedi'i liniaru trwy adolygiad llywodraethu.<br>• **TCR03:** Trosiant staff yn effeithio ar barhad – ymdrinnir â hyn trwy ddiffiniadau rôl clir a chynefino.<br>• **TCR05:** Risg o oruchwyliaeth ariannol annigonol – Rheolwr Ardal ar gyfer Hyfforddiant bellach wedi'i benodi fel deiliad y gyllideb.<br>• **TCR06:** Dibyniaeth ar ariannu cyfalaf allanol – ymgysylltiad cynnar â Llywodraeth Cymru a gwaith datblygu achos busnes amlinellol ac achos busnes llawn cadarn ar y gweill.<br>• **TCR07:** Absenoldeb strategaeth ystad – mae'r datblygiad ar y gweill a bydd yn rhan o'r achos busnes. |